LLAW AR Y LLYW

MEIRWEN LLOYD

Mae deufis o'r ddegawd newydd wedi hedfan heibio.

Mae Mawrth y cyntaf yn ddyddiad pwysig yn y calendr ar gyfer cyhoeddi rhifyn Gwanwyn o'n cylchgrawn rhagorol *Y Wawr* dan olygyddiaeth Elin Angharad. Mae hefyd yn ddiwrnod ein Nawddsant Dewi a chofiwn ei eiriau "**gwneud y pethau bychain**" i wneud bywydau eraill yn well. Mae aelodau ein mudiad yn gwneud hyn yn ddyddiol.

Diolch i bob un ohonoch wnaeth gefnogi fy apêl yn fy Nghyfarchion Nadolig 2019 i gynorthwyo plant. Diolch hefyd i bawb ar draws y rhanbarthau wnaeth ymdrech arbennig i gasglu'r 6000 o fagiau plastig, caniau a sbwriel i lanhau ein hamgylchedd a'n cymunedau. Gyda'n gilydd fe wnaethom wahaniaeth. Rhaid imi hefyd ddiolch a chanmol pob ymgais yn y Ffair Aeaf eleni, cafwyd gweithiau arbennig iawn. Mae lluniau yn siŵr o fod yn *Y Wawr*.

Bydd cinio'r Llywydd yn y Gogledd eleni yng Ngwesty'r Quay, Deganwy, ac yn y De awn i Westy Nantyffin yn Rhanbarth Penfro. Edrychaf ymlaen at fwynhau eich cwmni. Cofiwch hefyd am ein cystadlaethau yn yr Ŵyl Haf ym Machynlleth, rŵan yw'r amser i baratoi ar gyfer arddangos eich doniau medrus ymhob maes.

Yn ystod Gŵyl y Pum Rhanbarth (sef Môn, Arfon, Dwyfor, Aberconwy a Meirionnydd) ym Mangor llynedd cafwyd sgwrs gan Mr Alun Pritchard o Fodorgan, Ynys Môn am ei waith yn gwirfoddoli'n flynyddol i brosiect Omwabini.

Prosiect yw hwn dan arweiniad 'Mama' Mary (Mary Bunyasi) i **Adfer Gobaith ac Urddas yng Ngorllewin Kenya** drwy godi tai i weddwon a phlant amddifad yn yr ardal, y cyfan yn cael ei gyllido gan arian cyfranogwyr. Yn dilyn y sgwrs, daeth cais o'r gynulleidfa i wneud casgliad.

Yn ystod egwyl cinio gwnaeth criw ohonom gyfri'r arian at yr achos ac anrhydedd i mi oedd cael cyflwyno arian i Alun i gynorthwyo gyda'r gwaith.

Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig derbyniodd y swyddfa yn Aberystwyth lythyr gan Alun yn diolch am haelioni'r Pum Rhanbarth. Mae'n treulio mis pob blwyddyn yn adeiladu tai i deuluoedd tlawd y wlad ac yn unol â'n dymuniad rhoddwyd yr enw 'Y Wawr' ar un o'r tai adeiladwyd yn 2019.

Unwaith eto rydym wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau rhai llai breintiedig na ni.

Dyma nhw gyda chopi o gylchgrawn *Y Wawr* ac yna tu allan i'w cartref newydd.

Sylwch ar enw'r tŷ.

Hwyl am y tro.

Meirwen

BETI LLOYD, Birchgrove, Abertawe a fu'n dathlu ei phenblwydd ar Ionawr 11eg yn 100 oed. Fel un o aelodau cangen gyntaf Merched y Wawr yn y de roedd Beti yn falch o weld ei chydaelodau yn galw heibio. Roedd ei diweddar ŵr yn feddyg teulu yn yr ardal a phan gyfarfu'r ddau yn Ysbyty Singleton yn y 1940au roedd Beti yn gweithio yno fel Nyrs Filwrol. Penblwydd hapus iawn.

Tybed pwy sydd tu ôl i'r Wawr am 5.30 y bore wrth Uluru? (Ateb, Eluned Davies Scott).